# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Medi 2021 – Cyfrol 6 – Rhifyn 12

## Y ffatri wedi'i gwerthu



Cafodd y Cynghorydd Merfyn Parry y llythyr yma'n ddiweddar:

Annwyl Merfyn,
Diolch yn fawr am eich help yn ddiweddar. Mae'n bleser gen i gadarnhau bod proses prynu'r Hufenfa wedi'i chwblhau nos Iau ddiwethaf.

Mae bwriad i weithredu o Landyrnog yn un cyffrous iawn ac rydym yn gobeithio y byddwn yn cael effaith gadarnhaol ar y pentre a'r gymuned yn ehangach. Dyma ychydig o wybodaeth amdanom ni:

Mae Procter Johnson yn cynhyrchu pigmentau ac ychwanegion ar gyfer y diwydiant adeiladu. Darparu lliw ar gyfer eitemau concrit yw' rhan fwyaf o'n busnes – teils to, slabiau patios a phalmentydd, briciau arwynebu, ac ati.

Rydym yn fusnes sydd mewn perchnogaeth breifat ac rydym wedi bod ar y safle yn y Fflint ers 1984. Rydw i wedi gweithio yno ers 1993 ac yn un o'r tîm rheoli ers 2002. Mae'r busnes wedi tyfu'n sylweddol ers 2010 ac erbyn hyn rydym yn rhy fawr i'r safle yn y Fflint. Mae'r Hufenfa yn rhoi cyfle i ni ehangu eto ac i sicrhau dyfodol y busnes. Ar hyn o bryd, rydym yn cyflogi 37 o bobl a'r gobaith yw y gallwn ehangu'r gweithlu wrth i'r busnes barhau i dyfu.

Rydym yn bwriadu buddsoddi'n sylweddol, mewn offer newydd yn bennaf, ac yn gobeithio y byddwn yn gweithredu erbyn y Pasg 2022.

Rwy'n gobeithio'ch cyfarfod cyn bo hir. Os gallaf i fod o gymorth gydag unrhyw beth yn y cyfamser, rhowch wybod i mi.
Yn gywir
Harvey Jackson,
Cyfarwyddwr Rheoli,
Procter Johnson

O wefan y cwmni: 'Prif gyflenwr annibynnol pigmentau ac ychwanegion yn y Deyrnas Unedig i'r farchnad concrit ac asffalt fyd-eang.' Am ragor o wybodaeth, ewch i procterjohnson.com.

**Diolch o galon unwaith eto i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau i'r rhifyn hwn ac i'r rheini sydd wedi cyfrannu'n hael yn ariannol, gan gynnwys Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan.**

# Pytiau newyddion y pentre

Dymunwn wellhad buan i Earle Wright ar ôl ei lawdriniaeth, ac mae'n braf gweld John Hugh, Hyfrydle, a Haydn, yr Anchorage, o gwmpas y pentre unwaith eto. Gan bwyll piau hi, i chi gael gwella'n iawn.

Dymuniadau da i Alan a Buddug, (Rhydonnen) yn eu cartref  newydd, ac i Sue Vine, sydd wedi ymgartrefu dros dro ym Mhlas Llanrhaeadr.

Estynnwn groeso cynnes i'r pentre i Alex Wray a Matt Roberts i 1 Hen Ysgol; Sam Maddock a Jade Dolan i 2 Hen Ysgol; ac i Phil ac Ann Sutcliffe i Fin y Nant.

Llongyfarchiadau i ...




... Dan, ein cigydd, a Hannah ar eu priodas ac i Dave ac Emma Bass, Tŷ Coch ar eu priodas hwythau hefyd.

... Manon Dafydd (Bryn Ffolt gynt) a James Fitzpatrick ar eu dyweddïad. Mae Dad yn dechrau poeni am gost y briodas yn barod.

... Gwenan Mars Lloyd ar ei llwyddiant yn yr Eisteddfod AmGen: ail yn yr unawd alaw werin dan 21, trydydd yn yr unawd cerdd dant 16–21 oed, ac yn ail ar y ddeuawd cerdd dant gydag Ynyr Rogers.

... Neisha Roberts ar fod yn bencampwr Cymru dan 17 oed yn y ras ffos a pherth. Roedd hi'n rhedeg ym mhencampwriaethau Cymru a gynhaliwyd yng Nghasnewydd.  Mae hi wedi'i dewis i redeg dros Gymru ym mhencampwriaeth yr SIAB (Schools International Athletics Board) a fydd yn cael ei chynnal yn Derby ym mis Medi.




Pen blwydd hapus hwyr i Willie Plumb yn 70 oed. Mae'r pentrefwyr hefyd yn anfon eu cofion at Gwen Davies, Rhuthun – Hafod y Bryn gynt, a hithau'n dathlu pen blwydd arbennig iawn!

Bydd y sesiynau pêl-droed i blant yn dechrau eto yng Nghae Nant ddiwedd mis Medi, ar ôl i'r plant setlo'n ôl yn yr ysgol. Bydd y sesiynau ar nos Fawrth, ar yr AstroTurf, o 6 tan 7 o'r gloch i blant 6–11 oed, ac o 7 tan 8 i blant 11–16 oed (blwyddyn 7–11). Mae'r sesiynau yn rhad ac am ddim ac fe fydd rhagor o wybodaeth am y dyddiad dechrau ar gael yn ddiweddarach gan Jimmy McNally.

Diolch yn fawr iawn i bawb am y galwadau ffôn a'r dymuniadau da tra roeddwn yn Ysbyty Glan Clwyd ac ar ôl dod adre. Rwy'n gwella'n dda iawn a gwerthfawrogaf gonsýrn y gymuned glos yn fawr iawn.

John Hugh Roberts

## Sioe Rithiol Llandyrnog 2021



Ddechrau mis Awst bu'r beirniad, Alan Evans o Lan Conwy, yn beirniadu cystadleuaeth yr ardd orau – un o ddigwyddiadau sioe rithiol Llandyrnog eleni. Roedd wedi'i blesio'n fawr gan yr hyn a welodd. Yr enillydd oedd Richard Davies, Hafod y Bryn, ac yn ail, Evelyn Weyman, Plas Siors. I weld rhagor o luniau o'r gerddi hyfryd, bydd yn rhaid i chi ddisgwyl nes bydd llyfryn y sioe wedi'i chyhoeddi.



**Aelodau Pwyllgor *Llais Llandyrnog Voice*:** Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler, Jack Crowther, Bryn Davies (tanysgrifiadau a hysbysebion), Ann ac Iestyn Jones Evans, Rhian Jones, Margaret a Rod Williams, Sian Gwyn-Ifan (cyfieithydd).
***Anfonwch eich newyddion a'ch erthyglau at llandyrnognews@gmail.com***

# Astudio yn Carolina

Mae Joe Hinchcliffe yn un o bum myfyriwr o'r Deyrnas Unedig sydd wedi cael ysgoloriaeth bedair blynedd gan Morehead-Cain. Mae'r rhaglen hon o'r Unol Daleithiau yn talu'n llawn i fyfyrwyr o'r safon uchaf astudio ym Mhrifysgol Gogledd Carolina.

Gwnaeth Joe argraff fawr ar y pwyllgor dethol gyda'i ganlyniadau academaidd, ei allu ym myd chwaraeon – mae'n beldroediwr brwd, yn ogystal â'i waith gwirfoddol a oedd yn cynnwys ymgyrchu dros newidiadau i ddeddfwriaeth diogelwch ar y ffyrdd.

Mae'n bwriadu astudio gwyddor yr amgylchedd a pholisi cyhoeddus yn y brifysgol. Ar ôl graddio, mae'n bwriadu astudio am radd meistr yn y gyfraith a chael gyrfa mewn polisi amgylcheddol neu'r gyfraith, ac yn gobeithio dychwelyd i Gymru.

Llongyfarchiadau, Joe, a dymunwn bob llwyddiant i ti.



### Rhifau Ffôn Defnyddiol

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101
Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

# Clwb Pêl-droed Llandyrnog

Mae'n dda gan y clwb gyhoeddi ei fod wedi arwyddo bachgen lleol, Josh Newcombe. Dywedodd y rheolwr, Jimmy McNally, 'Rwy mor falch o groesawu Josh i'r clwb. Mae wedi cymryd rhan yn ein sesiynau pêl-droed lleol dros y blynyddoedd ac wedi cynrychioli timau iau'r pentre yng nghynghrair yr haf. Mae hefyd wedi chwarae i dîm ieuenctid Rhuthun. Mae Josh yn enghraifft o'r hyn y mae'n rhaid i dîm Llandyrnog fod, sef cyfle i'r hogie lleol ddringo i fyny ysgol y byd pêl-droed. Bydd Josh yn cael ei ddysgu'n dda yma, yn enwedig gan Steve Crompton a Tudur Morris, heb sôn am yr hogie profiadol sydd yma yng Nghae Nant.' Croeso i'r clwb, Josh!

Llongyfarchiadau mawr i ysgrifennydd ein clwb, Chris Pengelly a Jo ar eu priodas ym mis Mehefin, ac i'n Daniel Jones ni a Hannah a briododd ym mis Awst. Mae pawb yng Nghlwb Llandyrnog yn dymuno pob hapus-rwydd i chi.

Pen blwydd hapus hwyr i Gadeirydd ein clwb, Clive Jones, ac i Mike McCoole, yr un sy'n gyfrifol am ein graffeg wych. Pob dymuniad da gan bawb yn y clwb.

**21 Awst**

Llandyrnog 1 (Garmon Hafal), Penmaenmawr Phoenix FC 0

**18 Awst**

Llandyrnog 3 (Craig Jones, Adam Harvey a Garmon Hafal), CPD Llansannan 3


**14 Awst**

Bodedern 5, Llandyrnog 1 (Cwpan Cymru)

**7 Awst**

Bu'n rhaid canslo'r gêm oherwydd problemau Covid ymhlith tîm CPD Bro Cernyw.

# Llun y mis



Llun trawiadol arall gan Phil O'Loughlin o bryf hofran ar sgabosia.

Os hoffech chi gynnwys llun o'ch eiddo ar dudalennau'r Llais, anfonwch e-bost at llandyrnognews@gmail.com.



# Lle Celf y Steddfod AmGen




Os ydych chi wedi bod yn dilyn yr Eisteddfod Genedlaethol, sef Eisteddfod AmGen ar y teledu dros yr Haf, tybed i chi ymlwybro i wefan yr ŵyl i weld gwahanol weithgareddau, trafodaethau ac oriel celf - Y Lle Celf? Ces i'r anrhydedd o fod yn un o dri detholwr eleni i'r arddangosfa rithiol Y Lle Celf, ac mi roeddwn wrth fy modd.

Mae'r arddangosfa'n dathlu'r celfyddydau gweledol a phensaernïaeth gyfoes yn genedlaethol bob blwyddyn ac yn bwysig iawn yn calendr y celfyddydau gweledol. Mae fel rheol yn cynnig gwobrau aur i'r goreuon, ond oherwydd y sefyllfa, nid oedd modd rhoi gwobrau allan am yr ail flwyddyn yn olynol.

Bûm yn gweithio gyda'r artist, Carwyn Evans a'r Pensaer, Aled Wyn Davies yn trafod pob artist a ymgeisiodd. Roedd hyn yn broses eithaf gwahanol i'r cyffredin, gan fod y gwaith wedi ei yrru drwy ffotograffiaeth ac i'w weld ar sgrin yn unig. Anodd ydy dethol gwaith fel hyn, yn arbennig crefft, ond roedd o help fy mod yn adnabod y gwaith crefft yn dda ac wedi ei weld yn y cnawd o gwmpas orielau Cymru ac ar faes yr Eisteddfod dros y blynyddoedd!

Ond dim ond ar sgrin fyddai posib gweld yr arddangosfa hon, gan mai arddangosfa 3D rhyngweithiol ydyw, wedi cael ei greu gyda chwmni 4PiProductions sy'n creu profiadau digidol arbennig. Er ei fod yn siom nad oedd llawer wedi ymgeisio, (fel rheol mae'r niferoedd yn y cannoedd, er roedd hyn yn fendith nad oedd rhaid i ni fynd drwy gannoedd yn 'heatwave' mis Gorffennaf, a minnau'n feichiog!), roedd y safon yn wych diolch byth!

Mae'r Lle Celf yn agored i unrhyw artist sydd â chysylltiad â Chymry gyflwyno cais. Braf felly oedd gweld artistiaid sefydledig a rhai newydd wedi ymgeisio. Cafodd sawl artist argraff arna i gan gynnwys Manon Awst a Ani Glass, Andre Stitt, Sian Barlow, Rhiannon Gwyn a Llio James.

Roedd yr arddangosfa yn uchelgeisiol. Rwy'n eich annog i chi gyd fynd ati i gael golwg ac edrych ar y gweithiau drwy'r arddangosfa, sy'n brofiad gwahanol iawn i fynd o gwmpas oriel go iawn. Ewch i: **https://eisteddfod.cymru/amgen-2021-lle-celf-arddangosfa**.

Wir i chi, edrychaf ymlaen at allu ymlwybro ar hyd orielau ac i fynychu'r Eisteddfod yn sicr eto, gan fwynhau gweld rhyfeddodau yn y cnawd.

*Gwenno Angharad*
*Cyfarwyddwr Partneriaethau Celfyddydau a Busnes Cymru*

J & G

TYRE SERVICES



CAR - TRUCK - FARM TYRE SPECIALISTS

BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ

01745 817676
07775 717602

# Gair gan y Rheithor

Mae'r cyfnod clo a'r cyfyngiadau dros y 18 mis diwethaf wedi golygu gohirio sawl priodas. Mae rhai cyplau'n trefnu eu trydydd dyddiad ar gyfer eu priodas, ond wrth i'r cyfyngiadau godi'n araf deg, mae hi wedi bod yn hyfryd cael dathlu priodasau unwaith eto yn yr eglwys. Fe gawson ni briodas hyfryd yn eglwys St Tyrnog ym mis Awst ac roedd hi'n bleser pur cael rhannu eu dathliadau. Pan gyrhaeddais i'r eglwys i baratoi popeth, fe ddiffoddodd rhai o'r goleuadau ac roedd y lle'n dywyll. Ond fy mhryder pennaf i oedd yr organ yn hytrach na'r goleuadau, oherwydd fe allen ni wneud hebddyn nhw. Efallai ei bod hi'n organ bib, ond mae angen trydan arni er mwyn iddi weithio. Diolch byth, roedd popeth yn iawn – roedd yr organ yn gweithio a chafodd problem y goleuadau ei datrys yn fuan.

Yn y dyddiau cyn pympiau trydan, rhywun yn pwmpio'r fegin i roi aer yn y pibau oedd yn gweithio'r organ. Os nad oedden nhw'n pwmpio'n ddigon cryf, byddai'r organ yn distewi. Byddai'r organydd yn tapio'i droed neu ei throed ar lawr ac wedyn byddai'r fegin yn cael ei phwmpio'n galed er mwyn galluogi creu'r gerddoriaeth eto.

Mae sôn am organydd talentog, yn yr hen ddyddiau, yn rhoi cyngerdd gwych. Ar ôl i bobl ei longyfarch, fe ddywedodd y bachgen a fu'n gweithio'n galed ar y fegin, 'Fe wnaethon ni'n reit dda, on'd do?' Ateb dirmygus yr organydd oedd, 'Ni? A beth wnest ti? Fi yw'r cerddor enwog, yr un y daeth pobl i wrando arno.'

Fis neu ddau'n ddiweddarach, daeth yr un organydd at ran stormus mewn darn o gerddoriaeth a oedd yn gofyn am holl wynt y fegin. Yn sydyn, dechreuodd yr organ ddistewi. Tarodd yr organydd ei droed ar y llawr yn ddiamynedd, i gael rhagor o wynt i'r organ. Tynnodd y bachgen y llen i'r naill ochr a dywedodd, 'Rŵan rydych chi'n gwybod be' dwi'n ei wneud'.

Waeth pa mor enwog yw rhywun, waeth pa mor dalentog, mae angen i bawb ohonon ni gydweithio er mwyn llwyddo. Yr organydd oedd yr un yn y golwg, ond heb y bachgen yn pwmpio'r fegin, byddai heb sŵn. Roedd angen i'r ddau gydweithio er mwyn clywed y gerddoriaeth hyfryd.

Mae gan bawb ohonon ni ddoniau a gyda'n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth. Efallai nad y ni sydd yn y golwg, ond fe allen ni fod yr un sy'n galluogi rhywbeth i ddigwydd. Mae cymaint o dasgau sy'n ymddangos yn fach ac yn ddibwys, yn fodd i bethau mwy ddigwydd.

Mae ysgolion yn paratoi ar gyfer blwyddyn newydd. Gobeithiwn a gweddïwn na fydd dim byd yn tarfu ar y flwyddyn ysgol eleni ac y gall ysgolion fod yn fannau lle bydd plant yn dysgu ac yn gwneud ffrindiau unwaith eto.

*Ein tad nefol, arweinia bawb sy'n dychwelyd i'r ysgol ar ôl gwyliau'r haf, a'u gwarchod. Bydd gyda staff a disgyblion, rhieni a llywodraeth. Cofiwn am bawb sy'n dechrau mewn ysgolion newydd neu golegau. Helpa nhw i wneud ffrindiau ac i ymgartrefu'n dda yn eu hamgylchedd newydd.*
*Amen*

Gyda phob bendith,
*Val Rowlands*

## Gwasanaethau

**Eglwys St Tyrnog 11.15am**
Sul 5ed Medi: Cymun bendigaid
Sul 12fed Medi: Boreol weddi
Sul 19eg Medi: Boreol weddi
Sul 26ain Medi: Cymun bendigaid

**Eglwys St Cwyfan 5pm**
Sul 19eg Medi: Cymun bendigaid

**Neuadd y Pentref 3.30pm**
Sul 19eg Medi: Llan Llanast

Mae eglwys St Tyrnog ar agor o 10 y bore tan 4 y prynhawn ar gyfer gweddïau personol/ ymwelwyr

# Taith er cof am Lis

Dydd Mercher, Awst 18fed a hithau'n bnawn Mercher sych, di-haul, cychwynnodd criw ohonom o Neuadd y Pentref am Lwybr Tyrnog.

Taith oedd hon wedi ei threfnu gan Meg Jones a ffrindiau Lis Morris, ac roedd croeso i bawb yn y pentref ymuno â nhw ar daith ar hyd Llwybr Tyrnog, sy'n 5 cilomedr o hyd. Cawsom amser i hel atgofion gyda hwn a'r llall am gymeriad hollol unigryw Lis, a fu farw mor ddisymwth ddechrau'r flwyddyn hon. Wrth sgwrsio'n hamddenol gyda'n gilydd, gallem ddwyn i gof yr hwyl, y chwerthin, y caredig-rwydd, y meddylgarwch a'r dyfalbarhad oedd yn perthyn i Lis.

Wedi aros am ychydig wrth Dŷ Modlen, aethom i fyny am Langwyfan a chroesi ar draws y caeau am goed Tan y Glyn. Erbyn hynny, roedd pawb yn barod am ddiod a rhyw-beth bach i'w fwyta. Yna ymlaen uwchben Ffordd Las a cherdded nôl ar draws Lôn Goch, ymlaen drwy'r caeau o du ucha' Ty'n Caeau a chyrraedd y pentre'n ddiogel. Cafwyd cyfle i fyfyrio'n dawel am ychydig yn y fynwent, cyn diweddu'r daith a ffarwelio gyda'n gilydd wrth Neuadd y Pentre.



*Nia Dregoch a'r teulu, a David Plumb yn cael seibiant ar ganol y daith.*

**James Davies, A.S. Dyffryn Clwyd**

james.davies.mp@parliament.uk

Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920

Swyddfa Westminster: 0207 2194606

YSGOL BRYN CLWYD

Bydd digwyddiad cyntaf Ysgol Bryn Clwyd i godi arian at Lwyfan Coffa Lis Morris ddydd Sul, 12 Medi – taith gerdded gyfnewid o fore gwyn tan nos.

Bydd y daith o gwmpas y pentre ac yn para am 13 awr, gydag unigolion neu grwpiau yn cerdded am gyfnos o amser mewn taith gyfnewid ddi-dor.

Bydd yr un cyntaf yn dechrau'r daith am 6.41 a.m. o'r ysgol a phan fydd yn cyrraedd yn ôl, bydd y nesaf yn cychwyn. Bydd hyn yn parhau drwy'r dydd nes bydd yr un olaf yn cyrraedd yr ysgol tua 7.38 p.m.

Bydd bore coffi ar y diwrnod hefyd i unrhyw un sydd am wylio'r mynd a dod.

Os hoffech gyfrannu, ewch i www.justgiving.com/crowdfunding/jason-jones-34 neu anfonwch eich cyfraniad i'r ysgol.


**GLYN EVANS AUTOCLINIC**

**Canolfan Trwsio Ceir**

Ystâd Ddiwydiannol Colomendy

Dinbych LL16 5TA

GWAITH YSWIRIANT

TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU

CEIR I'W BENTHYG

GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR

**01745 815141**

**07808970364**

# Tri lle

**Benllech, Ynys Môn**

Does unman yn debyg i gartref meddan nhw a Benllech, neu 'Benllach', ydi adra i mi er fy mod wedi hedfan o'r nyth ac wedi gadael yr ynys ers blynyddoedd maith bellach. Ym Menllech y cefais fy ngeni a'm magu ac mae gennyf lawer o atgofion arbennig o'r lle.

Pentref glan y môr yw Benllech ar ochr ddwyreiniol Ynys Môn. Dyma un o draethau mwyaf poblogaidd yr ynys, ac ar lanw isel, mae'r tywod yn ymestyn am filltiroedd. Fel y gallwch ddychmygu, nid fi yw'r unig un sy'n cael fy nenu at y tywod euraidd a'r dyfroedd glas, clir. Yn ystod misoedd yr haf, bydd y pentref yn llawn bwrlwm y twristiaid a'r ymwelwyr fydd yn heidio yno i'r llu o wersyll-oedd a pharciau carafanau sy'n bodoli ers cenedlaethau, ac yn fwy diweddar, i'r Airbnbs moethus.



Yn sicr, nid oeddwn yn gwerthfawrogi ar y pryd mor lwcus oeddwn i'n cael fy magu mewn lle mor braf. Mae fy nghartref o fewn pellter cerdded i'r traeth a byddwn yn treulio cyfran helaeth o'r haf ar lan y môr. Dim ond picnic, bwced a rhaw oedd ei angen i fy nifyrru am oriau maith a byddai cael hufen iâ o'r "cwt eis crîm" yn coroni'r diwrnod bob tro.

Yn ffodus, mae fy mam yn dal i fyw ym Menllech a bellach mae Mati a Leusa, fy merched, wrth eu boddau yn cael mynd ar eu gwyliau at Nain. Er bod ei leoliad bellach wedi newid, mae'r "cwt eis crîm" yn dal i fodoli a dyma'r uchafbwynt iddynt hwythau hefyd heb os!

**Tref y Penrhyn / Cape Town, De Affrica**

Bûm yn ffodus o gael ymweld â Thref y Penrhyn yn haf 2010. Anaml iawn y byddaf yn teimlo ysfa i fynd yn ôl i unrhyw le y byddaf wedi bod iddo ar wyliau gan fod gymaint o wahanol lefydd i'w darganfod a'u harchwilio, ond mae Tref y Penrhyn yn un o'r llefydd hynny yn sicr. Mae yma ryw awyrgylch arbennig a chymaint o hanes a rhyfeddodau i'w gweld.



Tref y Penrhyn yw'r ddinas hynaf yn Ne Affrica a'r fwyaf ar ôl Johannesburg. Mae ar yr arfordir gyda Mynydd y Bwrdd â'i gopa fflat a'i glogwyni fertigol fel cawr yn gwarchod ei thrigolion. Cyfeirir yn aml at y ddinas fel un o'r rhai prydferthaf yn y byd. Fodd bynnag, er gwaetha'r ffaith fod y ddinas yn baradwys i rai, nid oes modd osgoi'r tlodi wrth yrru heibio'r treflannau ble mae llawer yn trigo mewn amodau argyfyngus. Er i apartheid ddod i ben bron i ddeng mlynedd ar hugain yn ôl, mae creithiau'r dyddiau a fu yn dal i fodoli hyd heddiw yn sicr.

Profiad a hanner oedd cael hwylio i Ynys Robben sydd gwta chwe milltir i'r gogledd o Dref y Penrhyn. Bu'r ynys yn le i gadw carchar-orion am bron i bedwar can mlynedd ac yn 1959, daeth yn garchar i wrthwynebwyr llywodraeth De Affrica a threfn apartheid.

# Tri lle: parhad

Bellach mae'r ynys yn gyrchfan i dwristiaid a cheir cyn-garcharorion yn dywysyddion. Y mwyaf adnabyddus o'r carcharorion a gadwyd yno oedd Nelson Mandela ac mae'r gell ble y treuliodd ddeunaw allan o saith mlynedd ar hugain dan glo wedi'i gosod fel ag yr oedd yn ystod ei gyfnod yno. Ni allaf ddweud fy mod wedi mwynhau'r ymweliad â'r ynys wrth glywed am galedi'r carcharorion ac am eu profiadau hunllefus, ond mae'n lleoliad eiconig sy'n hollbwysig i hanes De Affrica.

Traeth ar gyrion Tref y Penrhyn yw Boulders Beach. Yma gwelir nythfa o Bengwiniaid Affrica yn crwydro'n rhydd yn eu hamgylchedd naturiol. Gan fod y pengwiniaid yn rhywogaeth sydd mewn perygl o gael ei cholli, maent yn cael eu gwarchod a'u hamddiffyn. Pleser oedd cael gwylio'r "locals" yn eu cynefin eu hunain – roedd hi'n amhosib peidio gwirioni!

**Ynys Mallorca, Sbaen**

Yr ynys hon yw'r fwyaf o Ynysoedd y Balearig, sy'n rhan o Sbaen. Cyfeirir at yr ynys fel Seren y Canoldir gan lawer ac rwy'n tueddu i gytuno! Dyma un o'r mannau ble rwyf wedi bod yn ddigon ffodus i gael treulio nifer o wyliau teuluol, yn blentyn ac yn oedolyn. Mae'n ynys odidog sy'n llawn cymeriad gyda'i thraethau cyfareddol, golygfeydd swynol a threfi difyr. Fodd bynnag, er gwaetha'r ffaith i mi ymweld â'r ynys sawl gwaith, yn anffodus ni allaf ddweud fy mod wedi crwydro bob twll a chornel yn dysgu am ei hanes a'i diwylliant. Lle i ymlacio ac ailcharjio'r batris ydi Mallorca i mi.

Mae unrhyw un sydd yn fy adnabod yn gwybod fy mod wrth fy modd yn yr haul, yn wir, rwyf yn dipyn o "sun worshipper"! Yma, mae'r haul yn siŵr o fod gwenu a phwy all beidio â mwynhau ambell i sangria wrth orweddian ar lan pwll nofio gwesty braf! Rwyf wrth fy modd gyda bwyd y Canoldir, yn enwedig os nad fi sy'n coginio, felly be well nag eistedd mewn bwyty yn mwynhau'r awyrgylch a'r danteithion lleol? Bonws arall yw mai dim ond cwpwl o oriau mae'n ei gymryd i hedfan i Palma o Fanceinion, manylyn hollbwysig pan oedd y genod yn fach!



Wrth feddwl am fy nhri lle arbennig, y môr yw'r llinyn arian yn sicr. Er mor hyfryd yw byw yn Llandyrnog gyda hyfrydwch Bryniau Clwyd ar stepen fy nrws, byddaf yn hiraethu am y môr yn aml. Mae'n debyg fod hynny'n naturiol wedi i mi dreulio rhan helaeth o 'mywyd yn byw o fewn tafliad carreg iddo ym Menllech, Aberystwyth, Y Felinheli ac yng Nghonwy. Yn wir, heblaw am weld eisiau cwmni teulu a ffrindiau, peidio gallu gweld y môr oedd un o rwystredigaethau mawr y cyfnod clo diweddar i mi. Bryd hynny, rhaid oedd bodloni ar gerdded i fyny Penycloddiau (o'r tŷ wrth gwrs) er mwyn cael cip ar y môr yn y pellter!

*Gwenan Williams*

# Bore coffi Cymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan

Trefnodd Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog y bore coffi cyntaf ar ôl y cyfnod clo ddydd Sadwrn, 21 Awst. Fe’i cynhaliwyd yn Neuadd y Pentre ac roedd digon o le i bawb gael teimlo’n gyfforddus.

Nid oedd rhaid talu am fynd i mewn nac am baned, a daeth tua 60 o bobl i gefnogi’r digwyddiad. Roedd cacennau, cynnyrch gardd a phlanhigion ar werth, ynghyd â stondin bric a brac. Roedd unigolion a busnesau lleol wedi cyfrannu’n hael at wobrau’r raffl.

Roedd hi’n wych gweld cymaint wedi dod at ei gilydd, a phawb yn dechrau cymdeithasu eto a rhoi’r byd yn ei le. Cafwyd nawdd gan Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Coedwig Clocanog a chodwyd £392 tuag at brojectau’r gymdeithas.

Ar hyn o bryd mae’r gymdeithas yn paratoi ei rhaglen ar gyfer 2021/22. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn dod i’r cyfarfodydd, dod yn aelod o’r Gymdeithas, neuhelpu gydag unrhyw broject, anfonwch e-bost at yr ysgrifennydd – **llangwyfanhistory@hotmail.com.**



*Cadeirydd y Gymdeithas, yr Hybarch Bernard Thomas*










# Clwb Probus

Dechreuodd Clwb Probus Dinbych a’r Cyffiniau ei gyfarfodydd eto gyda bore coffi anffurfiol ym mis Gorffennaf yng Ngwesty’r Oriel, Llanelwy. Daeth 16 o aelodau ynghyd yno. Bydd y cyfarfod misol cyntaf rheolaidd ar ddydd Llun yn dechrau 6 Medi pan fydd Avril Robarts yn sôn am droseddau’r ddeunawfed ganrif yn llysoedd Dinbych.

Mae cyfarfodydd eraill 2021 yn cynnwys Dinbych yn ei blodau gan Lyndsey Tasker – 4 Hydref; Steve Tootell yn esbonio grym troell y crochenydd – 6 Rhagfyr.

Llywydd 2021 yw John Peel a’r Is-lywydd yw Julia Hughes. Bwriad y clwb yw creu cyfle i gymdeithasu, chreu cyfeillgarwch ac ehangu diddordebau’r aelodau. Gall darpar-aelodau gyfarfod ag aelodau’r clwb a mwynhau cinio am ddim drwy gysylltu â Keith Lester, ysgrifennydd y clwb, ar 07388 084361.


DBP

Denbigh Building Plastics

*SUPPLIERS & INSTALLERS*

*U_PVC windows, doors, rockdoors, secondary double glazing, sealed units. Conservatories, porches, garage doors, fascias, gutters, dry verge system, Firestone rubber roofing and canopies.*

Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849
**Open Mon—Fri 7.30am—5 pm**
**Sat 9 am—12 pm**


# Arddangosfa

**Arddangosfa: 8 Medi–17 Hydref**
Artistiaid Llangollen: Richard Buxton, Simon Collinge, Sylvia Evans, Jan Murray, David Pollock, Barrie Potter
Amgueddfa Llangollen, Stryd yr Orymdaith, LL20 8PW
Ar agor dyddiau Mawrth, Sadwrn, a Sul: 11.00–16.00

Cefais gais i arddangos ychydig o fy narluniau mewn arddangosfa gelf yn Llangollen. Dwi wedi dewis cymysgedd amrywiol o fy ngwaith, o ddarlun trawiadol i fy nehongliad i ar dirwedd Cymru. Ysbrydoliaeth gan ardd sydd wedi’i hail-wylltio, adlewyrchiadau o dan lanfa, a blodau rwy wedi’u gweld wrth fynd â’r ci am dro.

Rwy’n peintio mewn acrylig yn bennaf, er ’mod i’n hapus i ddefnyddio’r rhan fwyaf o gyfryngau. Rwy’n gwneud cardiau o fy narluniau a bydd y rhain ar werth hefyd yn yr arddangosfa, gyda chanran o’r elw yn mynd at North Wales Animal Rescue. Galwch heibio!

*Sylvia Evans*





# Mynd am dro gyda Bryn

Am dro i ardal Llangynhafal y byddwn yn mynd y tro yma.

Dwi'n siŵr os gwnewch chi drefniadau ymlaen llaw mi fyddai modd i chi barcio ym maes parcio'r Golden Lion. Bydd hwn yn lle da i ddechrau a diweddu ein taith o ryw awr a hanner heb fawr ddim darnau serth a golygfeydd hyfryd o'r Dyffryn ar hyd y daith.

Er mai Golden Lion ydi'r enw presennol mae wedi cael sawl enw tros y blynyddoedd ond yr enw gwreiddiol, mae'n debyg, oedd Yr Hand – Mr Roberts, perchennog bragdy'r Hand yn Rhuthun oedd yn berchen ar y dafarn. Roedd yr entrepreneur yma hefyd yn berchen ar nifer o dafarndai arall yn yr ardal ar un adeg. Y Corporation Arms oedd y dafarn gynta iddo'i phrynu yn 1879 ac yntau'n 27 oed. Wedyn aeth ymlaen i brynu'r Boars Head a'r Royal Oak yn Rhuthun, Drovers Rhewl, Ceffyl Gwyn Hendrerwydd ac wrth gwrs Hand Llangynhafal. Ond gan ei fod yn bragu'r cwrw ei hun yn Rhuthun roedd ganddo fusnes proffidiol tu hwnt – roedd nifer o ffermwyr yr ardal yn gwerthu'r hyn a oedd yn weddill o'u haidd iddo'i fragu.

Fodd bynnag fe ddaeth y Rhyfel Byd Cynta â newid mawr i'w fusnes – trethwyd cwrw i'r entrychion a dyna ddiwedd arni. Gwerthodd y busnes yn ei gyfanrwydd i Ind Coope a chaewyd y bragdy ym 1917.

O'r maes parcio, trowch i'r dde ac yn union ar y dde fe welwch chi Yr Hen Ysgol sydd bellach yn gartref moethus. Agorodd fel ysgol yn 1833 a chau yn 1868. Bydd yna rywun yn darllen hwn yn gwybod pa ddefnydd a fu i'r adeilad yn y cyfnod rhwng 1868 a phan gafodd ei throi'n gartref yn eitha diweddar.

I lawr i'r pant ac i fyny am Tŷ Coch ac ar y dde mi welwch chi enghraifft wych a phrin iawn o sgubor ffram nenffyrch (*cruck frame barn*) o'r 15ed ganrif. Fe gafodd ei hachub rhag dinistr llwyr gan Gyngor Dinbych tua 2006. Yn ôl y sôn, mae'n un o'r rhai hynaf sydd ar ôl yng Nghymru. Erbyn hyn, cwmni Bathing Beauty sydd yno, ac mae'r busnes yn creu cynnyrch o safon sydd wedi ei wneud o ddeunyddiau naturiol, heb gemegau, i edrych ar ôl eich croen.

Ymlaen ar hyd y ffordd yma i'r pant nesaf a phasio Tŷ Coch. Mi welwch arwydd fferm Pentre ar y dde i chi. Mae lôn y Pentre yn fynediad cyhoeddus felly i fyny'r lon â chi nes gwelwch chi arwyddbyst llwybr cyhoeddus – cymerwch yr un i'r dde.

Tros y gamfa a chymerwch eich amser i fwynhau'r golygfeydd hyfryd ar draws y Dyffryn. Anelwch am gefn fferm Plas Dolben sydd i'w gweld ryw ddau gau i ffwrdd.

Mae'n debyg mae Daulben oedd cyfenw gwreiddiol y teulu Dolben 'ma – yn ôl yr hanes, mi ddaru Harri VII roi ystad Segrwyd ger Dinbych yn gyfan i ŵr o'r enw Robert Daulben. Bu hwn yn gymorth mawr i'r brenin drechu rebeliaid Cernyw ym mrwydr waedlyd Blackheath ger Llundain yn 1497. Felly mae'r Dolbeniaid yma ers dros 500 mlynedd

Does dim ar ôl bellach o'r Plas Dolben gwreiddiol. Fe gafodd ei chwalu yn 1986 ond mae'n debyg ei fod wedi ei ailadeiladu dros sawl cyfnod. Wrth ei ddymchwel, fe ddaethpwyd o hyd i furluniau hynod iawn – un yn dangos Nelson a chwch hwylio. Tybed be ddaru ddigwydd i hwnnw?

Bellach braf iawn ydi gweld bod yna genhedlaeth arall yn cymryd yr awenau ym Mhlas Dolben a phob dymuniad da i Rhian ar ei menter, gyda'i rhieni'n rhoi pob cymorth iddi, rwy'n siŵr. Os gwelwch chi hysbyseb ar y cyfryngau cymdeithasol am sosejys Plas Dolben, wel prynwch rai – mae nhw gyda'r gorau y cewch chi. Cymerwch fy ngair i, Anwen a Mam am hynna!

Yng ngardd Plas Dolben mae ffynnon Cynhafal mewn cromgell sydd i'w gweld yn glir hyd heddiw. Yn ol y sôn roedd ganddi bwerau rhyfeddol i wella'r ddafad oddi ar groen – byddai'n rhaid pricio'r ddafad efo pin, taflu'r pin i'r ffynnon a gweddio ar Gynhafal am wellhad. O fewn ychydig ddyddiau fe fyddai'r ddafad neu'r defaid yn gwella. Nid coel oedd hyn – mae grisiau yn mynd at y dŵr ble byddai bobl yn ymdrochi i wella cryd cymalau hefyd.

# Mynd am dro gyda Bryn: parhad



*Ffynnon Cynhafal*

Ar ôl pasio cefn y fferm anelwch am giât ar y dde i chi ac wedyn ewch i lawr y cae at gamfa. Ewch dros honno, croeswch ryw ffos fechan ac i fyny'r ochr arall ac mi ddowch chi allan ar lôn sy'n arwain at Eglwys Sant Cynhafal

Cymerwch y dde fan hyn yn hytrach na dilyn y llwybr – dyma'r ffordd y byddai'r pererinion yn ei defnyddio i gyrraedd y ffynnon ym Mhlas Dolben, ond bydden nhw'n mynd i'r cyfeiriad arall.

Mynach oedd Cynhafal o'r 7ed ganrif ac mae gan blwyfolion Llangynhafal ddydd arbennig i ddathlu eu sant, sef 5ed Hydref – dydd Sant Cynhafal.

Mae arbenigwyr ar yr Eglwys wedi ysgrifennu cyfrolau amdani felly wna i ddim mentro. Ond i roi tamed i aros pryd cyn i chi wneud eich ymchwil eich hun neu fynd i'w gweld yn ei holl harddwch – mae cyfeiriad at eglwys ar y safle mor bell yn ôl ag 1254, ac at y person plwyf cyntaf yn 1390. Mae'r eglwys fel mae hi heddiw yn eglwys ddau gorff – sy'n draddodiad yma yn y Dyffryn – un fel llety i'r pererinion, a'r llall i addoli ynddi. Mae'r fynwent wreiddiol ar ffurf cylch sydd hefyd yn nodweddiadol o eglwysi o ddyddiau cynnar iawn.

Mae'n rhaid i chi ymweld â'r gofeb farmor wen ar wal sy'n wynebu'r ffordd fawr i goffáu'r dewr a gollodd eu bywydau yn ystod y ddau ryfel byd. Cymerwch funud i ddiolch i'r bobl ifanc a roddodd eu bywydau i sicrhau ein bod ni'n cael ein rhyddid – gadael cefn gwlad hyfryd Llangynhafal a ddim yn dychwelyd. Anodd dychmygu'r loes, yn tydi?

Yn eu plith mae un ferch ddewr iawn, Edith Evans, a oedd yn aelod o'r ATS. Os ewch chi i mewn i'r fynwent mae iddi garreg fedd dywodfaen wen hyfryd ar y dde.

Mae un enw wedi tynnu fy sylw ers blynyddoedd bellach – gŵr ifanc 21 oed o'r enw Henry Davies o Seler, tyddyn bach sydd dafliad carreg o'r eglwys. Collodd ei fywyd yn Poona (Pune bellach), India, yn Awst 1916 – 4,500 milltir i ffwrdd. Sut ar y ddaear ddaru o gyrraedd fan yno, a faint gymerodd y daith? Mi fuaswn wrth fy modd yn cael gwybod. Os ydych yn gwybod wel, y *Llais* amdani! Ac os edrychwch yn fanwl mae rhywun wedi ailnaddu'r llythyren P yn Poona – be sydd y tu ôl i hynna, tybed?

Amser anelu'n ôl at y car rŵan. Cerddwch i lawr yr allt hyd nes i chi gyrraedd Groesffordd Cyffion. Mae yna gyffion i'w gweld yna heddiw er mai replica ydi rhain o'r rhai gwreiddiol. Dyma ble fyddai dihirod y plwy yn dod i gael eu cosbi – *named and shamed* fel mae nhw'n ddweud heddiw.

Cyn i chi anelu i fyny'r lôn am y Golden Lion, ewch ryw ganllath i lawr y ffordd at Hendrerwydd ac mewn cae bach mi welwch olion Plas Iago – enghraifft eto o adeilad ffrâm nenffyrch bren. Ond tro yma, mae'n debyg bod olion y cyntedd a oedd yn ganolog i'r adeilad yn dal i'w gweld y tu mewn ond bod y ffyrch ucha wedi diflannu – coed tân i rywun rywbryd mae'n siŵr. Yn anffodus does dim mynediad cyhoeddus i'r cae yma.

Yn ôl y cyfrifiad dros y blynyddoedd mae 'na dystiolaeth bod crudd a gof wedi byw yma. Digon hawdd dychmygu rywsut, yn tydi, bod y groesffordd fach yma'n brysur iawn ar un adeg yn y canol oesoedd. Mi ro' i bres mai rhyd fase yma yr adeg honno – pethau eitha newydd ydi'r cwlferi 'ma sy'n achosi cymaint o drafferthion yn ystod y llifogydd. Roedd pobl ers talwm yn gwybod yn well!

Wel, yn ôl am y car 'na rŵan. Os gwnewch chi'r daith ar bnawn penwythnos, mae'n ddigon posib y bydd y Goldie ar agor. Mi gewch chi groeso mawr a phaned cyn troi am adre – i wneud mwy o waith ymchwil gobeithio!

*Bryn Davies*

# Y sioe geffylau

Roedd hi'n braf cael bod yn ôl ar Gaeau'r Kinmel am y tro cyntaf ers 2011. Roedd y tywydd yn ffafriol ac roedd y gefnogaeth gan farchogion, pobl y sêl cist car, stondinwyr, perchnogion cŵn a'r cyhoedd yn wych. Codwyd dros £700 i'w rhannu rhwng Hosbis San Cyndeyrn, yr Ambiwlans Awyr a Marchogaeth i Bobl Anabl.

Roedd hi'n braf sawl gwobr yn mynd i gystadleuwyr lleol.

Roedd naw'n cystadlu yn y categori Gwisg Ffansi ac roedd dewis enillydd yn anodd iawn. Lucy Wayte o Gymau a enillodd y wobr gyntaf gyda 'o dan y môr'.

Yr enillwyr eraill oedd Marcus Rosser a Catherine Smith Edwards – y ddau'n ennill dwy wobr yr un, a Megan Evans.

Fe gawson ni sawl ci yn cystadlu yn y sioe gŵn a'r beirniad oedd Gwen o Gwen's Choice Dog Feed.

*Iona Griffiths Pierce*



*(Llun: Phil O'Loughlin)*


**Cyngor Sir Ddinbych**



**Merfyn Parry**

Manylion cyswllt:

Ffôn : 07836 208446

E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk

Neu gadewch neges ar Facebook


# Coed Llangwyfan



Fel y soniwyd y mis dweitha, bydd coed llarwydd sydd wedi'u heintio â *Phytophthora ramorum*, neu glefyd llarwydd yn cael eu trin a'u cwympo yn ystod y 12 mis nesa.
Cafwyd sesiynau galw heibio ym mhrif faes parcio Coed Llangwyfan 3 a 4 Awst a chafodd rhai o drigolion yr ardal gyfle i holi swyddog o Gyfoeth Naturiol Cymru.


## Blue Hand Mowers

**Repair and servicing of all garden machinery:**

**Lawn mowers and lawn tractors**

**Chain saws**

**Hedge cutters**

**Strimmers**

**Disc cutters**

**Quad bikes**

**Leaf blowers**

**Hand tools**

**Collection and delivery service available**

**Situated on 'Blue Hand Corner' or find us on Google**

**www.bluehandmowers.co.uk**

**enquiries@bluehandmowers.co.uk**

**☎ 0775 20 35 462**

# Plas Ashpool

Ydy'r haf wedi hedfan i chithe hefyd? Un funud roedden ni'n mwynhau prydferthwch tyfiant ffres y gwanwyn, ac rŵan, ar ôl y cyfnod hyfryd yma o dywydd cynnes a braf, rydyn ni eisoes yn dechrau gweld arwyddion yr hydref.

Rydyn ni wedi bod yn ddigon ffodus i fynd i lan y môr ambell waith yn ystod yr wythnosau diwethaf ac mae'r teim gwyllt a'r grug ar y pentir wedi bod yn drawiadol iawn. Mae cerdded ar hyd llwybrau'r arfordir yn bleser pur. Mae rhywbeth yng ngwynt y môr sy'n rhoi cymaint o egni i chi, bron iawn yn feddwol.

Gartref, yn yr ardd, mae sawl arwydd o newid hefyd. Er bod yr ardd lysiau'n dal i roi gwledd o gynnyrch, mae'r borderi blodau'n dechrau edwino'n raddol ac yn paratoi ar gyfer y dyddiau byr sydd i ddod. Mae pobl yn gofyn yn aml i fi a ydw i'n torri'r tyfiant marw yn ôl. Rydw i'n un o'r rhai sy'n gadael llonydd iddo. Er ei fod yn edrych yn flêr, dwi'n credu bod y deiliach sych a marw'n gwarchod y planhigion rywfaint yn ystod y misoedd oerach. Ond os ydych chi'n hoffi gardd daclus, torrwch y cyfan yn ôl a gorchuddiwch y gwelyau blodau â'r toriadau.

Dwi wedi 'nghyffroi'n lân heddiw – mae ein mab yn America newydd ffonio i ddweud ei fod yn dod draw ym mis Hydref. Bu'n rhaid iddo fo a'i deulu ohirio'u hymweliad â Chymru yn ystod yr haf oherwydd eu bod wedi dal Covid. Maen nhw'n dweud eu bod nhw'n edrych ymlaen at y tywydd oerach a'r glaw! Mae'n anodd i ni ddeall hyn, ond pan maen nhw'n sôn am y tân gwyllt diweddara yn llosgi dros gan mil o aceri yn agos atyn nhw, yr awyr yn llwyd gan fwg a lludw, a'r llygredd difrifol yn yr aer, rwy'n gallu deall yn iawn pam maen nhw'n edrych ymlaen at ein tywydd ni yng Nghymru.

Mae heddiw wedi bod yn ddiwrnod i gynaeafu llysiau ac i hel madarch. A oes rhywun yn gallu argymell ambell rysáit blasus i ddefnyddio'r gormodedd hwn o gynnyrch? Dwi wedi rhoi cynnig ar sawl math o gawl, pate a siytni, ond mae'r syniadau'n dechrau mynd yn hesb. Rhannwch eich hoff rysáit chi â ni!

Rwy'n gobeithio eich bod wedi gallu mwynhau'r haf a bod gennym ni i gyd rywbeth i edrych ymlaen ato. Bydda i'n ysgrifennu rhestr eto fyth o'r holl jobsys a'r projectau garddio sy'n disgwyl amdana i, ond onid dyna wir bleser garddio?
Tan y tro nesa – mwynhewch y garddio.

*Fiona Bell*

# Rhybudd Cymunedol Gogledd Cymru

Mae Rhybudd Cymunedol Gogledd Cymru yn wasanaeth negeseuon cymunedol a gyflwynir i chi gan Heddlu Gogledd Cymru a phartneriaid. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am droseddau, digwyddiadau ymgysylltu, apeliadau, cyngor atal a gweithgarwch plismona cyffredinol yn eich ardal leol.

Mae cofrestru yn gyfan gwbl am ddim, yn gyflym ac yn syml. Mae Rhybudd Cymunedol Gogledd Cymru hefyd yn rhoi cyfle i chi roi adborth i'ch tîm plismona cymdogaethau lleol ar y problemau sydd bwysicaf i chi. Bydd hyn yn ein cynorthwyo ni i weithio gyda'n gilydd i wneud Gogledd Cymru'r lle mwyaf diogel yn y DU.

Mae holl negeseuon Rhybudd Cymunedol Gogledd Cymru yn cael eu hanfon o fewn y system Rhybudd Cymdogaethau diogel. Maent wedi'u brandio'n glir fel negeseuon gan Heddlu Gogledd Cymru. Nid yw'r rhybuddion yn gyfrinachol ac rydym yn croesawu rhannu gwybodaeth.

Nid ydy hyn yn disodli unrhyw gynllun Gwarchod y Gymdogaeth. Mae Rhybudd Cymunedol Gogledd Cymru yn gysylltiedig â system 'Ein Gwyliadwriaeth' Gwarchod y Gymdogaeth genedlaethol. Bydd yn gwella gallu'r heddlu a chynlluniau Gwyliadwriaeth i gyfathrebu a chynorthwyo ei gilydd.

**Cyngor ar ail ddechrau trefnu gweithgareddau cymunedol**

Pryder am ail agor y neuadd bentref? Poeni am ail ddechrau'r ymarfer côr? A fydd y sioe leol yn barod i ail agor ei giât y flwyddyn nesaf? A beth am y clybiau a'r gwyliau sy'n rhan hanfodol o'n cymunedau lleol?

Dydych chi ddim ar eich pen eich hun. Mae argymhellion yn sgil adroddiad gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu ailgysylltu â grwpiau 'a oedd yn annhebygol o ailddechrau wedi'r pandemig i ddarganfod pa gefnogaeth sydd ei hangen i'w cynorthwyo i ailddechrau gweithredu yn unol â'u dymuniad'.

Mae Menter Iaith Sir Ddinbych, gyda chefnogaeth Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, yn cynnig arweiniad i grwpiau cymunedol ailgydio mewn gweithgareddau ac ailagor canolfannau gan ddilyn canllawiau diogelwch Covid-19.

Mewn dwy sesiwn arbennig drwy Zoom, bydd yr arbenigwr ym maes iechyd a diogelwch i ddigwyddiadau, Alan Gwynant, yn cynnig arweiniad a dos o hyder yn ein gwirfoddolwyr wrth iddyn nhw fynd ati i baratoi at gynnal digwyddiadau.

Am 7 o'r gloch nos Fercher, 8 o Fedi, cynhelir sesiwn Cymraeg. Os oes aelodau o'ch pwyllgor yn ddi-Gymraeg, cynhelir sesiwn yn Saesneg ar nos Lun 20 o Fedi, hefyd am 7 o'r gloch.

'Mae'n amser pryderus i nifer, gyda chanllawiau ar gynnal digwyddiadau yn newid yn gyson,' eglura Ruth Williams o'r Fenter Iaith. 'Pwrpas y sesiynau yma ydi rhoi arweiniad clir a chefnogaeth i'n sefydliadau gwirfoddol, fel bod ganddynt yr arfau priodol ar gyfer agor eu drysau i gynnal digwyddiadau unwaith eto. Bydd arweiniad ar leihau risg, cynllunio ymlaen llaw, cyfathrebu gyda'r cyhoedd a delio gydag achosion o COVID-19, i enwi ychydig o gynnwys y sesiynau. Y gobaith wedi'r sesiwn 1.5 awr yw y bydd pawb yn gliriach wrth fynd ati i baratoi gweithgareddau yn eu cymunedau dros y misoedd nesaf ac y gallwn edrych ymlaen at weld mwy o ddigwyddiadau cymunedol yn ôl ar y calendr.'

I gofrestru ffoniwch 01745 812822 neu e-bostiwch menter@misirddinbych.cymru.

# Rysáit

**Rholiau ham a chaws**

4 sleisen o ham
4 wy wedi'u berwi'n galed
4 owns madarch wedi'u torri'n fân
4 owns nionod wedi'u torri'n fân iawn
4 owns ceirch
Halen a phupur
Ychydig o olew neu fenyn ar gyfer ffrio
Saws caws
Caws cheddar wedi'i gratio
¼ llwy de o fwstard

Ffrïwch y nionod a'r madarch yn ysgafn.
Rhowch nhw mewn powlen gyda'r wyau/ceirch/halen a phupur a'u cymysgu'n dda.
Taenwch y cymysgedd ar y sleisys ham a'u rholio. Rhowch y rholiau ham mewn dysgl y gallwch ei defnyddio yn y popty.
Tywalltwch y saws caws, sy'n cynnwys y mwstard, drostyn nhw.
Ysgeintiwch y caws wedi'i gratio ar ben y cyfan.
I'r popty ar 180°C am 20 munud.

**Cais gan dirfeddianwyr a ffermwyr lleol**

Gofynnwn i bobl sy'n defnyddio'r llwybrau cerdded lleol gadw atyn nhw a chadw eu cŵn ar y llwybrau hefyd. Nid yw gadael cŵn i redeg unrhyw le ar y caeau wrth ymyl y llwybr yn dderbyniol.
Diolch

**Hefyd, nodyn i atgoffa'r rheini sy'n marchogaeth eu ceffylau ar y palmant rhwng croesffyrdd Clynog a Llangwyfan – mae Rheol 54 o Reolau'r Ffordd Fawr yn datgan: *RHAID I CHI BEIDIO â mynd â cheffyl ar lwybr troed na phalmant.***

**Oriau agor Swyddfa'r Post**

**Dyddiau Llun Mawrth, Iau, Gwener**

**9am–12pm, 2pm–5pm**

**Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30**

**01824 790310**